Gwybodaeth i Gleifion

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

Arweiniad ar ddefnyddio gemcitabine i drin canser pancreatig – Gwybodaeth i Gleifion

Mai 2001

Gwybodaeth bellach

Ceir gwybodaeth bellach am NICE, a'r arweiniad llawn a roddwyd i'r NHS ar wefan NICE (www.nice.org.uk).

Hefyd gellir cael copi o'r arweiniad hwn trwy ffonio 0870 555 455, a dyfynnu cyfeirnod 23811.

Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd ac yr hoffech wybod mwy am ganser ymwelwch â gwefan NHS Direct: www.nhsdirect.nhs.uk.

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

11 Strand
London
WC2N 5HR

Web: www.nice.org.uk

Beth yw Arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r NHS. Mae'n cynhyrchu arweiniad ar gyfer yr NHS a chleifion ar feddyginiaethau, ar offer meddygol, ar brofion diagnostig ac ar weithdrefnau clinigol a llawfeddygol a lle y dylid eu defnyddio.

Pan fydd y Sefydliad yn gwerthuso'r pethau hyn, fe'i gelwir yn arfarniad. Mae pob arfarniad yn cymryd tua 12 mis i'w gwblhau ac mae'n cynnwys gwneuthurwyr y cyffur neu'r ddyfais, y sefydliadau proffesiynol a'r grwpiau sy'n cynrychioli cleifion.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael am gemcitabine a darparu arweiniad a fyddai'n helpu'r NHS yng Nghymru a Lloegr i benderfynu lle y dylid ei ddefnyddio wrth drin canser pancreatig.

Beth yw canser pancreatig?

Clefyd sy'n effeithio ar gelloedd y corff yw canser. Fel arfer, mae pob cell yn ymrannu ac yn atgynhyrchu ei hun mewn modd trefnus a rheoledig. Yn achos canser, mae'r celloedd yn lluosogi heb reolaeth gywir.

Clefyd sy'n effeithio ar y pancreas yw canser pancreatig. Chwarren fawr yw'r pancreas sydd yn agos at y stumog. Mae'n cynhyrchu hormonau, gan gynnwys inswlin, a secretir i mewn i'r gwaed.

Mae canser pancreatig yn effeithio ar tua 12 o bobl ym mhob 100,000.

Ym 1997 canfuwyd bod 5,730 o bobl â'r cyflwr hwn, ac o'r rhain roedd 75 o bob 100 dros 65 oed. Mae tua 12 o bob 100 o bobl y canfyddir bod canser pancreatig arnynt yn byw am flwyddyn yn dilyn y diagnosis, ac mae tua 3 o bob 100 yn byw am 5 mlynedd.

Gall pobl â chanser pancreatig ddioddef ystod o symptomau. Gall y rhain gynnwys y clefyd melyn, teimlo'n sâl, dolur rhydd, colli pwysau, diffyg archwaeth a phoen enbyd yn eu habdomen (bola). Gall symptomau canser pancreatig amharu gryn dipyn ar ansawdd bywyd claf.

Mae'r math o driniaeth a roddir ar gyfer canser yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Ymhlith y rhain mae:

- y math o ganser
- ym mhle yn y corff y dechreuodd
- sut y mae'r celloedd canser yn edrych o dan y meicrosgop
- y graddau y maent wedi ymledu, os o gwbl
- iechyd cyffredinol y claf

Mae cemotherapi yn golygu defnyddio cyffuriau gwrth ganser i ddinistrio celloedd canser.

Gellir defnyddio cemotherapi ar ei ben ei hun i drin canser neu gellir ei ddefnyddio gyda chyffuriau eraill, gyda llawdriniaeth a/neu gyda radiotherapi.

Mae tua 4 o bob 100 o gleifion yn cael llawdriniaeth a all wella eu canser. Fodd bynnag, am nad yw canser pancreatig yn cael ei ganfod fel arfer nes ei fod yn eithaf datblygedig, dim ond gofal lliniarol y gellir ei gynnig i'r mwyafrif o gleifion (gofal cefnogol i liniaru symptomau, ond nid i wella'r canser).

O dan rai amgylchiadau efallai y caiff gweithdrefn lawfeddygol liniarol ei chyflawni i leddfu unrhyw glefyd melyn a achosir wrth i'r canser gau dwythellau'r bustl. Gall ansawdd bywyd y claf wella o ganlyniad i hyn. Gall triniaethau eraill gynnwys cemotherapi a radiotherapi i leihau maint y canser. Ar hyn o bryd mae tua 10 i 15 o bob 100 o gleifion yn derbyn cemotherapi ar gyfer canser pancreatig.

Beth yw gemcitabine?

Triniaeth cemotherapi yw gemcitabine (Gemzar) sy'n wenwynig i gelloedd canser. Mae'n gweithio trwy atal rhan o'r gell ganser rhag atgynhyrchu ei hun. Mae sgîl-effeithiau gemcitabine yn eithaf mwyn, ond gallant gynnwys brechau a chyfog (teimlo'n sâl).

Beth yw argymhellion NICE ynghylch defnyddio gemcitabine?

Mae NICE wedi argymell i'r NHS:

- Y gellir trin pobl gyda chanser pancreatig datblygedig neu fetastatig (pan fydd y canser wedi ymledu i rannau eraill o'r corff) â gemcitabine fel

triniaeth llinell flaen os oes ganddynt sgôr perfformiad Karnofsky o 50 neu fwy.

Mae Karnofsky yn fesur a roddir gan weithiwr iechyd proffesiynol i allu rhywun i berfformio rhai tasgau cyffredin: 100 = normal, dim cwynion, 70 = heb fod yn gallu cyflawni gweithgareddau arferol, 50 = angen cryn dipyn o gymorth, 40 = anabl, 30 = argymhellir mynd â'r person i'r ysbyty.

- Na ddylid defnyddio gemcitabine ar gyfer pobl gyda chanser pancreatig sy'n gymwys i gael llawdriniaeth a all wella eu canser, neu'r bobl hynny sydd â sgôr perfformiad Karnofsky o lai na 50.
- Na ddylid defnyddio gemcitabine fel triniaeth eilaidd ar gyfer pobl gyda chanser pancreatig, gan nad oes digon o dystiolaeth o blaid yr ymarfer hwn.

Beth ddylwn i ei wneud?

Os oes gennych chi, neu os oes gan rywun rydych yn gofalu amdanynt ganser pancreatig gallwch drafod y cyngor hwn gyda'ch meddyg neu'ch nyrs pan ymwelwch â hwy nesaf .

A fydd NICE yn arolygu ei arweiniad?

Bydd. Arolygir yr arweiniad ym mis Ebrill 2004.